



**Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales**

Cofnodion/Nodiadau Gweithredu Cyfarfod Bwrdd 28 Ionawr 2022 drwy Zoom

Yn bresennol: Sue Davies (SD) (Cadeirydd)
Tegwen Ellis (TE) (Prif Weithredwr)
Mike James (MJ)
Martin Price (MP)
Davina Payne (DP)
Paul Marshall (PM)
John Graystone (JG)
Rosemary Jones OBE (RJ)
Kate Lewis (KL)
Gaynor Ace (GA) (Ysgrifenyddiaeth)

1. Gair o groeso, cadarnhad o'r cofnodion a chymau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol

Agorodd SD y sesiwn a chroesawodd bawb i gyfarfod cyntaf y Bwrdd yn 2022. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Michaela Renkes. Nid oedd unrhyw wrthdaro buddiannau i'w adrodd.

Nododd SD fod y gwaith o ailgyfansoddi'r Bwrdd ar y trywydd iawn a'r gobaiith oedd penodi aelodau newydd i'r Bwrdd yn dilyn y cyfweiliadau.

Llongyfarchodd SD y tîm ar y gynhadledd wych a gynhaliwyd ddoe. Mewn ymateb i gais gan JG, bydd KL yn anfon dolen i'r gynhadledd at aelodau'r Bwrdd nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y digwyddiad byw.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod gwir a chywir. Diolchodd SD i GA am baratoi'r cofnodion hyn mor gyflym.

Cyfeiriodd SD at y Log Gweithredu o gyfarfod blaenorol y Bwrdd a nododd fod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu bellach wedi'u cwblhau.

Gan gyfeirio at gamau gweithredu parhaus:

- 180 - Gwahoddir Claire Williams i gyfarfod nesaf y Bwrdd;
- 184 - Gwahoddir Charlotte Thomas i fod yn bresennol pan fydd y cynllun cyfathrebu nesaf ar gael;

- 186 – Cadarnhaodd MJ fod archwiliad dwfn i seiberddiogelwch wedi'i gynllunio ar gyfer cyfarfod nesaf y pwyllgor. Mynychodd MJ gyfarfod SIRO bythefnos yn ôl pan ddaeth i'r amlwg bod llywodraeth y DU wedi penderfynu, mewn achosion o feddalwedd wystlo, **na ddylid** talu pridwerth;
- 188 – roedd y cam gweithredu hwn yn parhau.

Diolchodd SD i'r ddau is-bwyllgor am eu gwaith trylwyr a manwl mewn perthynas â gwneud argymhellion yn dilyn eu gwaith craffu ar waith gweithredol. Mae'r gefnogaeth a'r her hon drwy weithgarwch archwiliad dwfn yn galluogi'r prif Fwrdd i wneud ei benderfyniadau strategol.

2. Adroddiad y Pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol

Darparodd MP adroddiad cryno ar gyfarfod diwethaf y pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol a gynhaliwyd yn gynharach y mis hwn.

Roedd cofnodion y Pwyllgor wedi'u dosbarthu ynghylch materion Adnoddau Dynol a drafodwyd. Cadarnhaodd MP nad oedd unrhyw gynlluniau ar waith i ddychwelyd i'r swyddfa ar unwaith ond bod mecanweithiau ar waith i aildechrau cyfarfodydd wyneb yn wyneb cyn gynted ag y bernir bod hyn yn ddiogel.

Roedd y gyllideb ar y trywydd iawn i ddod i ben eleni o fewn y terfynau arferol. Diolchodd MP i KL am ei gwaith rhagorol yn rheoli'r gyllideb. Mae materion diwedd chwarter o ran cario'r gyllideb drosodd bellach wedi'u datrys.

Cyfeiriodd SD at broblem y mis hwn o ran arian y gyllideb yn cael ei dalu'n hwyr, gyda Llywodraeth Cymru yn dweud mai camgymeriad dynol oedd yn gyfrifol am hynny. Roedd hyn wedi achosi cryn straen a phryder i'r sefydliad yn sgil yr angen i dalu cyflogau staff ac anfonebau. Mae TE wedi rhoi hysbysu Owain Lloyd o'r mater gyda'r gobaith o gael esboniad llawn ac osgoi unrhyw ailadrodd. Os na dderbynnir ymateb boddhaol, bydd SD yn codi'r mater hwn gyda Llywodraeth Cymru ar ran y Bwrdd.

Bydd KL yn gwneud taliadau cyflog unigol i staff heddiw gan ei bod bellach yn rhy hwyr i wneud cyflogres lawn gyda'r banc.

Diolchodd RJ i MP am ei adroddiad ac awgrymodd, er bod cofnodion y pwyllgor yn eithaf manwl, y gallai dogfen gryno ychwanegol ar incwm/gwariant fod yn ddefnyddiol hefyd i hysbysu'r Bwrdd. Cytunodd MP i ystyried hyn yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.

Diolchodd SD i MP am ei adroddiad a derbyniwyd cofnodion y pwyllgor gan y Bwrdd.

3. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Cyflwynodd MJ yr adroddiad o gyfarfod y pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a gynhaliwyd yn gynharach y mis hwn.

Nid oedd llawer o newid i'r gofrestr Risg y tro hwn. Roedd PM wedi codi cwestiwn ynghylch a allai risg newydd ddod i'r amlwg yn dilyn cyhoeddi Adolygiad Arweinyddiaeth Dr Alma Harris. Caiff hyn ei ystyried pan fo'n briodol.

Cafwyd trafodaeth ddiddorol hefyd ynglŷn â sefyllfa'r sefydliad fel Corff Hyd Braich a'r ffaith bod y llinellau rhwng darparu cyngor ac eiriolaeth yn aneglur.

Gan fod y Gofrestr Risg wedi'i hailgyfansoddi i gyd-fynd â'r cynllun corfforaethol, roedd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd hefyd wedi'i newid i adlewyrchu hynny. Rhoddodd y pwyllgor ystyriaeth fanwl i'r 3 llinell amddiffyn, a oedd yn her ddefnyddiol iawn.

Penderfynwyd cynnal archwiliad dwfn i seiberddiogelwch yn y cyfarfod nesaf.

Diolchodd SD i MJ am ei adroddiad ac roedd y Bwrdd yn hapus i gymeradwyo cofnodion y pwyllgor. Roedd pob un ohonynt yn gytûn y dylem dderbyn pob argymhelliad o'r ddau gyfarfod pwyllgor.

4. Adroddiad y Prif Weithredwr yn erbyn y Cynllun Corfforaethol

Diolchodd TE i'r holl staff o waelod calon am y gynhadledd les ddoe a fu'n llwyddiant ysgubol, gyda thua 245 o bobl yn bresennol. Er y bu rhai problemau technegol ar y dechrau, cafodd y rhain eu datrys yn gyflym diolch i gymorth Charlotte Thomas.

Agorodd y gynhadledd gydag anerchiad fideo gan y Gweinidog a roddodd gefnogaeth i'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg ganmoliaeth uchel iawn i'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y sefydliad a chytunodd i gyfarfod dilynol ar sut i symud y papur 'Er Sylw' yn ei flaen. Felly, bu'r digwyddiad hwn yn llwyfan gwych a dylai sicrhau bod sgrysiâu am les yn parhau.

Amlinellodd Dr Ali Davies ganfyddiadau o'i gwaith ar arweinyddiaeth dosturiol a oedd yn cynnwys cyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda Phenaethiaid a oedd wedi gadael y proffesiwn am wahanol resymau. Y gobaith yw y bydd modd sicrhau bod hwn ar gael yn fuan ar wefan y sefydliad.

Yna, aeth TE drwy ei hadroddiad yn ystyried pob rhaglen waith yn ei thro.

Paragraff 1.1 Sicrhau Ansawdd – ers cau'r broses gymeradwyo ddiwethaf, cafwyd 2 gyflwyniad llwyddiannus. Mae'r alwad am gymeradwyaeth bellach ar agor eto tan 18 Chwefror. Pwysleisiodd TE yr angen i Lywodraeth Cymru fod yn gwbl gefnogol wrth ystyried gwir werth sicrhau cymeradwyaeth.

Gofynnodd MJ pam mae Llywodraeth Cymru yn ymddangos yn amharod i gytuno mai darpariaeth wedi'i chymeradwyo ddylai fod y dewis a ffefrir. Gofynnodd MJ hefyd am amserlen y broses gymeradwyo.

Esboniodd TE fod hon yn broses eithaf cymhleth, gyda Llywodraeth Cymru yn ariannu llawer o waith o'r rhanbarthau. Mae'r broses gymeradwyo yn cymryd tua 12 wythnos o'r cyflwyniad cychwynnol. Mae'n broses dau gam gyda chanlyniad 3ydd cam, felly mae'n eithaf hir o ran disgwyl ymateb.

Dywedodd MJ fod hyn yn ymddangos yn amserlen hir ac, o bosibl, wedi'i gorbeiriannu.

Cytunodd TE fod darparwyr weithiau o'r farn bod y gyfres o feini prawf yn eithaf hir a llafurus. Mae'r broses wedi'i gwerthuso o'r dechrau ac mae adborth gan ddarparwyr wedi'i ystyried. Gobeithio y bydd y Fforwm Darparwyr newydd yn helpu i symleiddio'r system ymhellach.

Gofynnodd MJ a oedd cymeradwyaeth yn ymwneud â phob darpariaeth neu wasanaeth yn hytrach nag i'r Darparwr yn ei gyfanrwydd.

Cadarnhaodd TE fod angen cymeradwyo pob darpariaeth, er y gellid ystyried y rhain gyda'i gilydd pe bai mwy nag un yn cael ei chyflwyno yn yr un cylch.

Gofynnodd MP a oedd hyfforddiant heb ei gymeradwyo yn ymwneud â chwmnïau nad oeddent yn cyflwyno eu gwasanaeth i'w cymeradwyo neu a oedd yn ymwneud â methu'r broses gymeradwyo.

Cadarnhaodd TE fod y ddarpariaeth wedi'i chyflwyno ac wedi methu yn yr enghraifft dan sylw. Codwyd hyn gyda Llywodraeth Cymru.

Siaradodd PM am sefydliadau blaenorol yr oedd wedi gweithio gyda nhw a oedd wedi datblygu systemau o farciau siarter a oedd yn rhoi sicrwydd i sefydliadau iach da a oedd yn cynnig darpariaethau hyfforddi.

Cytunodd TE y gallai hyn fod yn werth ei ystyried, er y gallai fod yn anodd ar draws y rhanbarthau gan eu bod yn gweithredu mewn gwahanol ffyrdd.

Gofynnodd JG a yw darparwyr ond yn cael gwybod eu bod wedi llwyddo neu fethu yn y broses gymeradwyo, neu a fyddai unrhyw hyblygrwydd.

Esboniodd TE ei bod weithiau'n dod yn glir iawn yng nghanam 1 na fyddent yn gallu mynd ymhellach. Mae rhai darpariaethau wedi cyrraedd cam 2 ond yna wedi methu gan nad ydynt yn gallu cyflawni'n ddwyieithog. Weithiau, mabwysiedir dull gweithredu llai manwl, gan annog gwaith ychwanegol gan ddarparwyr sydd wedi eu cynorthwyo i gael cymeradwyaeth ar ailgyflwyno.

Roedd y drafodaeth hon yn ddiddorol iawn yn ôl RJ a wnaeth ddatgan ei diddordeb mewn gweithio gydag un o'r rhanbarthau. Credai RJ y gallai'r 12 wythnos o waith fod yn rhwystr i lawer o ddarparwyr ac roedd hefyd o blaid symleiddio'r broses i nodi sefydliadau fel darparwyr y gellir ymddiried ynddynt yng Nghymru.

Soniodd MJ am y posibilrwydd o graffu ar brosesau dylunio darparwyr ac edrych ar eu hanes i roi sicrwydd. Awgrymodd MJ drafodaeth bellach ar hyd y llinellau hyn yn y pwyllgor archwilio a risg.

Diolchodd TE i bawb am sgwrs wych am gymeradwyaeth lle codwyd llawer o bwyntiau diddorol.

Paragraff 1.2 Arloesi – mae'r maes hwn yn dangos yn glir bod arweinwyr yn ystyried ffyrdd newydd o weithio a bod y sefydliad yn darparu cyfleoedd i ganiatáu i hyn ddigwydd. Roedd 13 o astudiaethau achos wedi'u cynhyrchu o gyfres 2, er enghraifft. Bwriedir cynnal y 3edd gyfres ym mis Mawrth mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys arloesi digidol, sef un o feysydd blaenoriaeth y Gweinidog.

Paragraff 1.3 Arweinyddiaeth y System – mae'r maes hwn bellach yn cynnwys rhestr o'r holl feysydd sy'n ymwneud â Swyddogion Cyswllt. Pan fydd y pandemig yn caniatáu, bydd ysgolion yn gallu cydweithio llawer mwy. Cydnabu TE fod Swyddogion Cyswllt yn rhoi llawer o'u hamser i'r sefydliad ar adeg pan fo ganddynt lawer o waith o ddydd i ddydd. Mae llawer o geisiadau'n cael eu derbyn i sicrhau presenoldeb Swyddogion Cyswllt mewn fforymau. Roedd TE yn falch eu bod bellach fel petaent yn cynrychioli llais arweinwyr mewn gwahanol ffyrdd.

Paragraff 1.4 Datblygu Arweinyddiaeth – mae'r gyfres Datgloi Arweinyddiaeth yn dod yn adnabyddus iawn am lywio dysgu proffesiynol mewn sefydliadau. Amlinellodd TE y rhaglen ar gyfer siaradwyr y dyfodol a fydd yn tynnu sylw at wahanol ffyrdd o ddarparu arweinyddiaeth ac yn rhoi ffocws rhyngwladol i'r gyfres nesaf.

Cyfeiriodd TE at y 'Blether' a ddenodd dros 300 o fynychwyr ac a ddangosodd fod arweinwyr canol yn ysbrydoledig ac yn frwdrydig. Bwriedir cynnal cynhadledd o'r enw 'Arwain o'r Canol' sy'n ceisio cael arweinwyr iau i gymryd rhan yn y gwaith hwn.

Mae paragraff 2.1 yn manylu ar y sylfaen dystiolaeth ar gyfer adnoddau. Cytunwyd ar y nodweddion ar gyfer arwain dysgu proffesiynol. Mae cytundeb bellach wedi'i wneud i fynd â chriwiau ffilmio allan i ysgolion i recordio uwch arweinwyr yn siarad am y ffordd y maent yn arwain dysgu proffesiynol. Bydd recordiad ar-lein gan academyddion, gydag anerchiad fideo gan y Gweinidog, hefyd yn cefnogi'r adnodd a fydd ar gael i gefnogi ysgolion sydd ei angen. Bydd yr adnodd hwn yn cael ei lansio wythnos 21-22 Mawrth, gan gyd-fynd â'r uwchgynhadledd addysg fyd-eang.

Dechreuodd gwaith EIE cyn y pandemig ac mae 12 ysgol wedi'u hariannu i edrych ar arwain ymholiadau. Mae adroddiadau interim bellach wedi dod i law; ar ôl i'r adroddiadau terfynol ddod i law, byddant yn cael eu rhoi ar y wefan fel rhan o'r adnodd Arwain Dysgu Proffesiynol

2.2 – Mae papur Egwyddorion Arwain wedi'i gomisiynu sydd bellach yn ei ddrafft terfynol. Mae hyn yn rhan o ymgyrch i dargedu darpar arweinwyr a'u datblygu ar ba bynnag gam y maent.

Mae comisiwn Carfan 2 ynghylch darparu'r Gymraeg mewn addysg wedi llwyddo i ddylanwadu ar bolisi ar lefel genedlaethol. Gofynnwyd i Swyddogion Cyswllt gyfrannu at gynllun 10 mlynedd. Mae hon yn enghraifft wych o ddylanwadu ar lefel uchel.

Roedd gan RJ ddiddordeb mawr mewn clywed yr adborth mewn digwyddiad diweddar a oedd yn cynnwys pob grŵp o gynorthwywyr addysgu i arweinwyr

ysgolion. Dywedodd RJ ei bod yn braf iawn gweld bod gwaith Carfan 2 mor ddylanwadol, yn enwedig yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd.

2.3 Lles – bydd angen i'r sefydliad ystyried sut i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn a chroesawodd gymeradwyaeth y Gweinidog yma.

2.4 – Datblygu'r Gweithlu Strategol - bydd TE a Chris Lewis yn cyfarfod â Chyfarwyddwr Addysg Abertawe y prynhawn yma fel rhan o'r cynllun peilot. Bydd Chris hefyd yn cyfarfod â Charfan 3 i ystyried y ffordd orau o recriwtio a chadw Penaethiaid fel ffocws ar gyfer eu gwaith comisiwn

Yn y maes corfforaethol, mae SD eisoes wedi cyfeirio at benodi cyfarwyddwyr newydd. Mae TE wedi cynnal cyfarfodydd gyda'r dirprwy gyfarwyddwyr yn yr Adran Addysg ynghylch y cylch gwaith ac mae wedi trafod blaenoriaethau'r Gweinidog gyda Llywodraeth Cymru. Roedd TE yn falch o adrodd y bydd cyfarfodydd mwy rheolaidd yn cael eu trefnu gyda Llywodraeth Cymru o hyn ymlaen. Mae trafodaethau wedi'u cynnal ynghylch y cynnydd arfaethedig yn y gyllideb y flwyddyn nesaf ac mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am wybodaeth fanylach am y gwariant presennol ar y gyllideb. Nid oedd TE yn rhagweld unrhyw doriadau i'r gyllideb bresennol.

Gofynnodd JG a oedd gan y Gweinidog newydd gyfeiriad ychydig yn wahanol i'r un blaenorol neu a fyddai'n pwysu am unrhyw newidiadau. Nid oedd TE wedi canfod unrhyw beth felly a thynnodd sylw at y ffaith bod y Gweinidog yn rhoi canmoliaeth uchel iawn i waith y sefydliad. Mae blaenoriaethau'r Gweinidog yn cynnwys y Gymraeg, digidol, tegwch mewn addysg, strwythur y diwrnod ysgol a lles sy'n cydfynd yn dda iawn â chynllun corfforaethol yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol.

Gofynnodd MJ a oedd unrhyw beth wedi'i ddweud ynghylch codi safonau. Cadarnhaodd TE fod y Gweinidog yn canolbwyntio ar sicrhau bod ardaloedd difreintiedig yn cael yr un cyfleoedd.

3.2 – cyfeiriwyd at y gyllideb eisoes. O ran staffio, cadarnhaodd TE fod Kirsty Payne bellach wedi gorffen ei chyfnod mamolaeth yn swyddogol a'i bod ar absenoldeb gwyliau ar hyn o bryd. Mae Kirsty yn bwriadu dychwelyd i'r gwaith ar 15 Chwefror a bydd yn gweithio 3 diwrnod yr wythnos tan fis Ebrill ac yn defnyddio diwrnodau gwyliau ar gyfer y diwrnodau eraill. Bydd KL yn parhau yn ei swydd hyd nes y bydd Kirsty yn dychwelyd yn llawn amser.

Dywedodd RJ y byddai'n braf gweld Kirsty yn dychwelyd ond aeth ati hefyd i ganmol KL am y gwaith rhagorol y mae wedi'i wneud yn absenoldeb Kirsty. Roedd RJ yn falch o gael cadarnhad bod y sefydliad yn gweithio yn unol â blaenoriaethau'r Gweinidog, ond pwysleisiodd yr angen i sicrhau effeithiolrwydd o ran gwella safonau. Pwysleisiodd RJ hefyd yr angen parhaus i fod yn ystyriol o atebolrwydd.

Diolchodd TE i RJ am y sylwadau hyn a nododd y bydd hyn yn ddefnyddiol i'w ystyried pan fydd Estyn yn ailddechrau ei rhaglen arolygu ysgolion.

Cyfeiriodd MJ at raglen brofi Pisa nad yw'n ymddangos fel pe bai'n rhan mor annatod o system addysg Cymru. Cadarnhaodd TE nad yw hyn yn ymddangos yn

uchel ar restr o flaenoriaethau arweinwyr ysgolion ar hyn o bryd, yn rhannol oherwydd y pandemig.

Teimlai RJ fod hwn yn bwynt diddorol iawn i'w godi ac y byddai'n fwy na pharod i drafod ymhellach gyda TE a/neu ddiweddarau'r Bwrdd yn y cyfarfod nesaf. Byddai TE yn hapus i fanteisio ar gynnig RJ yma.

3.3 Cyfathrebu a Marchnata – mae'r maes hwn yn gwneud yn dda iawn. Y prif lawrlwythiad ar gyfer mis Tachwedd a mis Rhagfyr oedd papur Arweinyddiaeth y System gan yr Athro Alma Harris.

Mae'r grŵp rhanddeiliaid bron yn gyflawn, er bod cael cynrychiolwyr o ysgolion gwledig bach wedi bod yn heriol. Mae'r cyfarfod cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer mis Chwefror.

O ran gwaith partneriaeth, mae Cymwysterau Cymru wedi bod mewn cysylltiad ynghylch gweithio gyda Swyddogion Cyswllt ar gyd-adeiladu. Canmolodd TE y berthynas waith dda gydag Estyn a CGA. Mae gan y sefydliad hefyd berthynas waith dda â'r rhanbarthau yn unigol, er bod angen rhywfaint o waith ar lefel genedlaethol ar hyn.

Diolchodd SD i TE am adroddiad manwl cynhwysfawr iawn ac roedd yn falch o weld cynnydd da mewn cynifer o feysydd. Roedd SD wedi cael y drafodaeth fanwl ar gymeradwyaeth yn ddiddorol iawn a diolchodd i bawb am eu mewnbwn yma.

Soniodd JG ei fod yn aelod o'r corff sy'n adolygu cyflogau ac amodau athrawon a'i fod bellach wedi cael cais i edrych ar gyflogau ac amodau arweinwyr. Byddai JG yn croesawu trafodaeth gyda TE ar hyn rywbryd. Gofynnodd JG hefyd a fyddai'r Bwrdd yn ystyried cyfarfodydd wyneb yn wyneb wrth symud ymlaen.

Cadarnhaodd SD mai'r bwriad oedd cyfarfod wyneb yn wyneb yn y dyfodol pan oedd yn ddiogel gwneud hynny. Awgrymodd SD gynllun hybrid o gynnal hanner holl gyfarfodydd y Bwrdd wyneb yn wyneb. Mae gan hyn fanteision ac anfanteision gan y byddai angen ystyried costau teithio ac aros dros nos o ran cyllidebau. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn llacio'r cyfyngiadau, bydd y Bwrdd yn ystyried o ddifrif gwneud yr un peth.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar-lein ac, erbyn hynny, efallai y byddwn yn gwybod mwy am aelodau newydd y Bwrdd. Nododd TE y gallai fod angen addasu amseroedd rhai o gyfarfodydd y Bwrdd er mwyn ystyried amseroedd gwyliau.

5. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf, Unrhyw Fater Arall a Dirwyn y Cyfarfod i Ben

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd ar 18 Mawrth.

Diolchodd SD i TE a'r tîm am yr holl waith rhagorol y maent wedi bod yn ei wneud a diolchodd hefyd i aelodau'r Bwrdd am eu cyfraniad at y cyfarfod y bore yma.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50am

Log Gweithredu

Rhif		Perchennog	Terfyn amser	Statws
188	Ystyried cydweithio ar les	NM	Parhaus	
190	Dosbarthu'r ddolen i'r gynhadledd	KL	Chwefror 2022	
191	Codi'r mater o dalu'r gyllideb gydag Owain Lloyd os oes angen	SD	Chwefror 2022	
192	Talu staff yn unigol y mis hwn	KL	Ionawr 2022	
193	Ystyried darparu crynodeb o'r gyllideb i'r Bwrdd	MP	Mawrth 2022	
194	Ystyried craffu ar ddarparwyr	MJ	Mawrth 2022	
195	Trafod rhaglen Pisa	RJ a TE	Mawrth 2022	
196	Trafod cyflogau ac amodau arweinwyr	JG a TE	Mawrth 2022	
197	Ystyried dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol	Pawb	Mawrth 2022	